**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

16 Gorffennaf 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2021**

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau hyn o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Deuant i rym ar 17 Gorffennaf 2021. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac rwy'n bwriadu ei osod, ynghyd â'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, unwaith y mae'r offeryn statudol wedi ei gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 7 Hydref 2021, er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn rwy'n deall fod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor cyfrifol neu'r pwyllgorau cyfrifol gyflwyno adroddiad arno. Efallai y bydd yn ddefnyddiol ichi wybod fy mod yn bwriadu cynnwys y ddadl ar gyfer yr eitem hon o is-ddeddfwriaeth ym musnes arfaethedig y Cyfarfod Llawn ar 21 Medi 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.